O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1590 (Cy. 190)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Nantgaredig i White Mill, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Gorffennaf 2015* |
| *Yn dod i rym* | *29 Gorffennaf 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llandeilo – Caerfyrddin (yr A40) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Gorffennaf 2015 a'i enw hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Nantgaredig i White Mill, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o'r gefnffordd rhwng Nantgaredig a White Mill yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 240 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4310 i Nantgaredig hyd at bwynt 1,356 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â ffordd Dosbarth III yr C2050 i White Mill.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### Cyfyngiad

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4**. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Gorffennaf 2015

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.